# CYFARFOD CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2010 (2:00pm)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O. Jones - (Is-Gadeirydd) yn y Gadair.<br><br>Y Cynghorwyr W.J. Chorlton, Lewis Davies, Barrie Durkin, Jim Evans, Keith Evans, C. Ll. Everett, D. R. Hughes, Ff. M. Hughes, K. P. Hughes, R. Ll. Hughes, W. I. Hughes, W. T. Hughes, T. Lloyd Hughes, Eric Jones, H. Eifion Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, T. Jones, R. Ll. Jones, Clive McGregor, Rhian Medi, Bryan Owen, J. V. Owen, R.L. Owen, R. G. Parry OBE, G.O. Parry MBE, Eric Roberts, P. S. Rogers, Hefin W. Thomas, Ieuan Williams. John Penri Williams. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid),<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau,<br>Pennaeth Dros Dro Sgriwtini,<br>Swyddog Sgriwtini,<br>Swyddog Cyfathrebu |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr E. G. Davies, T. Ll. Hughes, G. W. Roberts OBE, J. Arwel Roberts, E. Schofield, Selwyn Williams. |

---

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Ff. M. Hughes.

## 1 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd, fel cofnod cywir, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gafwyd ar y dyddiadau hyn:-

- 11 Mai 2010
- 11 Mai 2010 (Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol)
- 5 Gorffennaf 2010 (Arbennig)

## 2 DATGAN DIDDORDEB

Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorwyr K. P. Hughes a T. Jones yn eitem 13 o'r cofnodion hyn, ac fe wnaeth y ddau aros yn y cyfarfod ond heb gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater.

## 3 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD, AELODAU O'R PWYLLGOR GWAITH NEU'R PENNAETH GWASANAETH TÂL

Roedd y Cadeirydd am longyfarch pob un o Ynys Môn oedd wedi cystadlu ac wedi bod yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Blaenau Gwent. Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i Glenys Mair Glyn Roberts, merch y diweddar Reg Powell, cyn Bennaeth Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn oedd wedi ennill y goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cyfeiriodd hefyd at Mrs Grace Roberts oedd wedi ennill Wobr Goffa Daniel Owen. Er ei bod yn byw ar hyn o bryd yn Y Felinheli, roedd ei gwreiddiau ym Mhensarn.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle hefyd i longyfarch disgyblion Ysgolion Uwchradd Ynys Môn oedd wedi cael llwyddiant yn eu aroliadau TGAU a Lefel 'A'. Dymunodd yn dda i bob un ohonynt i'r dyfodol. Diolchodd hefyd i'w hathrawon am eu hymrwymiad a'u gwaith caled.

Crybwyllodd hefyd y llwyddiannau gafwyd yn Sioe Frenhinol Cymru ac yn Sioe Ynys Môn y flwyddyn hon.

Yn y fan hon, cymerodd Arweinydd y Cyngor y cyfle i ddweud wrth y Cyngor bod y Cynghorydd Phil Fowlie wedi ymddiswyddo o fod yn Gynghorydd Sir dros Ward Rhosneigr oherwydd nad oedd ei iechyd yn dda. Diolchodd iddo am ei gyfraniad i Lywodraeth Leol ers ei ethol yn 1999. Roedd wedi bod yn aelod poblogaidd iawn o'r awdurdod hwn ac roedd am estyn dymuniadau gorau'r Cyngor iddo wrth geisio dod dros y gwaeledd oedd wedi cael effaith ar ei fywyd dros y 18 mis diwethaf.

Roedd y Cynghorydd Bryan Owen hefyd yn dymuno talu teyrnged i Phil Fowlie. Dywedodd bod Phil wedi cael llawdriniaeth ym Manceinion ddoe ac roedd am estyn ei ddymuniadau gorau iddo am adferiad llwyr a buan. Roedd wedi bod yn aelod poblogaidd iawn o'r awdurdod hwn, efallai y Cynghorydd mwyaf poblogaidd o bawb. Roedd y poblogrwydd hwnnw ddwy flynedd yn ôl wedi dwyn at ei gilydd 21 o Gynghorwyr sef y grwp mwyafrifol ar y Cyngor ar y pryd. Gyda Phlaid Cymru fe gafwyd mwyafrif o 29 aelod yn y Cyngor. Roedd Phil yn ddyn o egwyddor ac nid oedd yn gadael ei gyfeillion i lawr. O dan arweiniad Phil Fowlie y ganwyd cysyniad yr Ynys Ynni. Roedd yn galonogol yn awr i weld bod hyn oll i gyd yn cael ei wireddu. Roedd Phil Fowlie wedi bod yn lysgennad ardderchog dros y Sir ac roedd wedi cymryd y cyfle i hyrwyddo'r Ynys bob cyfle a gâi.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddymuno adferiad llwyr a buan iddo. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith bod y Cynghorydd E. G. Davies wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar a dymunodd iddo yntau adferiad llwyr a buan.

Aeth y Cadeirydd yn ei flaen i groesawu cynrychiolwyr o Ddawnswyr Bro Cefni, Llangefni i'r Siambr. Roeddent i'w canmol am eu gwaith trwyadl ac am eu defnydd o offerynnau cerdd traddodiadol fel y delyn Gymreig. Y flwyddyn hon roeddent wedi bod yn llwyddiannus yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen lle cawsant ddwy wobr gyntaf. Roedd hynny yn dipyn o gamp. Dywedodd ei fod yn rhoi pleser mawr iddo gyflwyno medalau i gofio hynny i gynrychiolwyr iau ac oedolion Dawnswyr Bro Cefni.

Cyflwynwyd medalau hefyd i gynrychiolwyr Clwb Codi Pwysau Caergybi gan Mr. Eric Jones, y mynyddwr byd enwog o Dremadog, oedd yn adnabyddus am iddo ddringo wyneb gogleddol yr Eiger ar ei ben ei hun a hefyd am iddo ddringo'r Matterhorn a Dyffryn Deheuol Everest.

Cyn y cyflwyniad, cyflwynodd y Cadeirydd aelodau'r clwb codi pwysau gan dalu teurnged i'w cyraeddiadau sylweddol yn y gamp. Dymunodd bob llwyddiant iddynt i'r dyfodol. Llongyfarchwyd y clwb hefyd gan yr aelod lleol, y Cynghorydd Raymond Jones, a diolchodd i Eric Jones am fod yn bresennol heddiw. Ar nodyn mwy trist, cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth Mr. Gareth Williams o Fali yn Llundain yn ddiweddar. Ar ran y Cyngor, mynegodd ei gydymdeimlad llwyraf â chefnder Mr. Williams, y Cynghorydd W. I. Hughes ac i'w fodryb Mrs Judith Thomas, Cyfieithydd. Mynegwyd cydymdeimlad y Cyngor cyfan â'i deulu â'i gyfeillion.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R. Ll. Hughes, y Deilydd Portffolio, at farwolaeth sydyn Mrs Helen Williams ddoe. Roedd Helen yn Is-Reolwr Cartref Brwynog, Amlwch. Estynnwyd cydymdeimlad i'w theulu ac yn arbennig i'w chwaer Megan Roberts oedd yn gweithio yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd y Cadeirydd hefyd am gydymdeimlo gydag unrhyw Aelod neu Swyddog oedd wedi cael profedigaeth ers cyfarfod diwethaf y Cyngor hwn. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn distawrwydd fel arwydd o'u parch.

## 4 CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGORAU TROSOLWG A SGRIWTINI 2009/10

Cyflwynwyd - Adroddiad y Pennaeth Sgriwtini Dros Dro yn amlinellu'r gwaith wnaed gan y Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini rhwng Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 5 Mai 2009 ac 11 Mai 2010.

Roedd pum Cadeirydd y Pwyllgorau Sgriwtini oedd newydd eu sefydlu wedi cyfrannu at yr adroddiad ac roedd crynodeb o'u bwriadau am y flwyddyn i ddod wedi'u cynnwys fel **ATODIAD** i'r adroddiad.

O ganlyniad i'r Adroddiad Arolwg Llywodraethu Corfforaethol, roedd camau wedi'u cymryd i wella sgriwtini yn y Cyngor. Roedd y Cyngor wedi gofyn am gefnogaeth yr WLGA i ddatblygu ac i gefnogi ei swyddogaeth sgriwtini gan ofyn i'r Gymdeithas ddatblygu argymhellion i wella

sgriwtini.  Yn ystod Chwefror 2010, roedd CLlLC wedi cyhoeddi 'Adolygiad o Drefniadau Sgriwtini ym Môn".

Roedd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol wedi siarad gerbron y Cyngor ar 24 Chwefror ac wedi ysgrifennu llythyr i'r Arweinydd ar 4 Mawrth yn dweud bod angen ailstrwythuro Trosolwg a Sgriwtini er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddarpariaethau digonol yn eu lle ar gyfer sgriwtineiddio perfformiad ei feysydd gwasanaeth.

Ar 11 Mai 2010, roedd adroddiad ar drosolwg a sgriwtini wedi'i gyflwyno i'r Cyngor llawn ac fe gytunwyd y byddai strwythur sgriwtini newydd yn cael ei mabwysiadu.  Byddai'r strwythur newydd yn ei gwneud yn haws i aelodau ddewis pynciau i'w sgriwtineiddio sydd o werth ac o ddiddordeb i bobl Môn ac i wella'r cyswllt rhwng y broses sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith.

Roedd effeithlonrwydd Pwyllgorau Sgriwtini'n dibynnu ar nifer o bethau fel cefnogaeth annigonol neu amhriodol gan swyddogion, effaith gwleidyddiaeth parti/grwp ac ymateb gwael o du'r Pwyllgor Gwaith i sgriwtini.  Roedd y Cyngor yn edrych i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn ac roedd Rheolwr Sgriwtini wedi ei benodi gyda swyddog cefnogi sgriwtini ychwanegol i'w benodi.

Rhoddwyd cyfle i Gadeiryddion y 5 Pwyllgor Sgriwtini ddweud wrth y Cyngor am eu cynlluniau i'r dyfodol, fel oedd i'w weld yn yr atodiad i'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

- **Bod grwp llywio o Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini'n cael ei ailsefydlu, gyda dyletswyddau clir yn cael eu nodi i'r grwp a chytuno ar broses ar gyfer cadeirio'r grwp.**

- **Bod y Cynghorydd W. J. Chorlton yn cael ei enwebu i weithredu fel "Pencampwr Aelod Sgriwtini" (o'r Pwyllgor Gwaith) i gefnogi'r gwaith o godi proffil Sgriwtini ar draws y Cyngor ac i wella'r cyfathrebu oedd yn digwydd yn arbennig rhwng Pwyllgor Gwaith ac aelodau nad oeddent ar y Pwyllgor hwnnw.**

- **Bod cyllideb ymchwil o £5,000 yn cael ei nodi a'i dyrannu i Bwyllgorau Sgriwtini i wella capasiti sgriwtini i ddarparu ymchwil arbenigol a chyngor.  Y Grwp Llywio Sgriwtini fydd yn penderfynu sut i ddyrannu'r arian hwn.**

- **Bod Swyddog Cyswllt o bob Adran yn cael ei nodi a'i enwebu gan bob un Cyfarwyddwyr Corfforaethol fel y pwynt cyswllt i aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith ac i Swyddogion Sgriwtini i ddarparu:-**

  - **dull cyfeirio sydyn i feysydd adrannol perthnasol**
  - **gwybodaeth allweddol ac adroddiadau presennol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth**
  - **enwebiadau ar gyfer cefnogaeth ychwanegol berthnasol gan swyddog adrannol i adolygiadau Sgriwtini**
  - **adnoddau ar gyfer gwybodaeth a chysylltiadau allanol.**

- **Bod y Pennaeth Sgriwtini dros dro a'r Rheolwr Hyfforddi yn llunio rhaglen ddatblygu 12 mis i aelodau a swyddogion i gefnogi'r datblygiadau parhaol o fewn sgriwtini a**

**hynny'n seiliedig ar nodi anghenion hyfforddi ac atborth aelodau a swyddogion, deddfwriaeth newydd y llywodraeth ac arfer dda'n genedlaethol.**

- **Bod Cynllun Cyfathrebu Sgriwtini'n cael ei sefydlu gyda chefnogaeth yr Uned Gyfathrebu i godi proffil ac i godi ymwybyddiaeth o Sgriwtini ar draws Ynys Môn.**

- **Y dylid cael cytundeb ar ddiweddaru edrychiad Adroddiadau Blynyddol Sgriwtini yn y dyfodol yn dilyn rhai esiamplau da yn genedlaethol (Cyngor Sir Cumbria, Cyngor Bwrdeistref Sandwell ac yn y blaen) ac, fel cam cyntaf, derbyn cyngor a chyfarwyddyd gan Uned Graffeg y Cyngor ar y mater.**
-
- **Bod proses integredig newydd ar gyfer sgriwtineiddio cyllideb flynyddol y Cyngor yn cael ei drafod a'i ddiffinio gan weithgor anffurfiol o'r aelodau mewn cydweithrediad gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a TGCh.**

## 6 DISGRIFIADAU RÔL A MANYLION PERSON I AELODAU

Adroddwyd gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro - Bod y Gweithgor Datblygu Aelod oedd wedi'i sefydlu'n ddiweddar gyda chefnogaeth CLILC wedi datblygu Strategaeth Datblygu Aelod fel sylfaen waelodol i'r bwriad terfynol o sicrhau statws siarter ond oedd hefyd yn rhoi cyfeiriad a ffocws clir i'r gweithgor.

Un o'r prif elfennau a chonglfeini'r strategaeth oedd y disgrifyddion rôl a oedd, fel y swydd ddisgrifiad, wedi'u bwriadu i osod allan gyfrifoldebau a swyddogaethau rôl aelod etholedig. Roeddent yn rhoi eglurder i aelodau ynglyn â'u swyddogaethau ond roeddent hefyd yn dystiolaeth ddefnyddiol i'r etholaeth bod aelodau'n gwneud swydd broffesiynol oedd wedi'i diffinio'n glir.

Roedd y disgrifyddion rôl hyn yn ffurfio conglfaen i'r Siartr Datblygu Aelod oedd wedi'i datblygu i roi strwythur ac impetws i'r corff cynyddol o wasanaethau cefnogol oedd ar gael i aelodau etholedig o fewn llywodraeth leol Cymru.  Roedd awdurdodau oedd yn derbyn statws Siartr yn cael eu hystyried fel rhai a oedd wedi ymrwymo i wella safonau a datblygu arferion da.

Roedd cytuno i symud ymlaen gyda disgrifyddion rôl a manylion personol yn cael ei ystyried fel y math o arfer dda a ddisgwylid gan awdurdod lleol blaengar ac roedd yn gam positif ymlaen i helpu aelodau fynd i'r afael â'u hanghenion datblygiadol a fyddai o gymorth i'w cefnogi yn eu rôl.  Yn sicr, fe fyddai'n cefnogi gwaith datblygu yn y dyfodol i gael Siartr Aelod ond byddai hefyd yn cadarnhau i'r Bwrdd Adfer bod yna fwriad gwirioneddol gan yr aelodau eu hunain i newid eu hagwedd tuag at eu rôl.

**PENDERFYNWYD bod pob aelod unigol yn ymrwymo i'r disgrifyddion rôl perthnasol a bod Cyngor Sir Ynys Mon yn ffurfiol yn mabwysiadu'r ystod llawn o ddisgrifyddion rôl ar gyfer rolau gwahanol yr aelodau etholedig i ddod i rym ar unwaith.**

## 7 DIWYGIO'R WEITHDREFN CWYNION A CHANMOLIAETH GORFFORAETHOL

Adroddwyd gan Gyfreithiwr y Swyddog Monitro - Yn dilyn cwyn wnaed yn ddiweddar, roedd yr Ombwdsmon wedi argymell bod y Cyngor yn diwygio ei Weithdrefn Gwynion trwy ychwanegu cymal newydd.  Ynghlwm wrth yr adroddiad, roedd copi o Weithdrefn Cwynion a Chanmoliaeth

bresennol y Cyngor.  Y bwriad oedd ychwanegu cymal newydd i'r weithdrefn yn 1.3.3. fel a ganlyn:-

*"Ni ddylai swyddog sy'n destun cwyn ymateb i'r gwyn honno ac yn achos uwch swyddog, gwneir trefniadau i swyddog ar lefel gyfatebol neu uwch ymateb i'r gwyn."*

**PENDERFYNWYD**

**Yn amodol ar gyfarwyddyd y Gweinidogion Cymreig, newid y Cyfansoddiad trwy ychwanegu'r cymal canlynol yn 1.3.3:-**

***"Ni ddylai swyddog sy'n destun cwyn ymateb i'r gwyn honno ac yn achos uwch swyddog, gwneir trefniadau i swyddog ar lefel gyfatebol neu uwch ymateb i'r gwyn."***

## 8 SEFYDLU GRWP LLYWIO ADFER O'R CYNGOR LLAWN

Dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro - Y byddid yn gofyn i'r Cyngor yn ei gyfarfod heddiw, gymeradwyo'i Raglen Adfer.

Yn ogystal â nodi'r camau oedd eisoes wedi'u cwblhau'n llwyddiannus, byddai'r Rhaglen Adfer yn gosod allan weithgareddau pellach y byddai'n rhaid i'r Cyngor ymgymryd â nhw er mwyn bodloni'r Gweinidog a'r Bwrdd Adfer bod y Cyngor yn gallu, ac y byddai'n parhau i allu rhedeg ei weithgareddau ei hun heb yr angen am ymyrraeth.

Rhaid monitro cynnydd y Rhaglen Adfer a thra roedd yna nifer o bwyllgorau / grwpiau presennol fyddai'n chwarae rôl yn hyn, y cynnig oedd y dylid sefydlu Grwp Llywio Adfer.  Byddai'r trefniadau cyffredinol yn unol â'r rhai oedd wedi'u darlunio yn Atodiad A yr adroddiad i'r Cyngor.

Roedd y Cylch Gorchwyl oedd yn cael ei awgrymu ar gyfer y Grwp Adfer ynghlwm yn Atodiad B o'r adroddiad.  Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at y gefnogaeth arfaethedig gan swyddog fyddai'n asesu cynnydd a pherfformiad Prosiectau'r Rhaglen Adfer ac yn adrodd yn ôl i'r Grwp Adfer.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at nifer o ffactorau y byddai'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth yng nghyswllt aelodaeth y Grwp Adfer.

Collwyd cynnig gan y Cynghorydd Bryan Owen y dylai aelodau'r Grwp Adfer i gyd gael eu dewis o blith rhai ar feinciau cefn yr  Awdurdod.

Cyn y bleidlais, nododd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro mai mater i bob grwp gwleidyddol oedd penderfynu ar aelod i'w enwebu gan roi sylw i ba mor ddymunol oedd cael aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a rhai nad oeddent ar y Pwyllgor Gwaith yn aelodau o'r Grwp Llywio.  Fodd bynnag, roedd yn cytuno gyda'r farn gyffredinol roddwyd gerbron heddiw, sef oni fyddai yna nifer teg o aelodau o'r meinciau cefn, yna ni fyddai'r Grwp yn cyflawni ei amcanion mewn gwirionedd.  Trwy gynnal trafodaethau trwy'r sianelau gwleidyddol arferol yng nghyswllt yr enwebiadau, fe allai'r Cyngor geisio cydymffurfio gydag ysbryd yr hyn yr oedd y Cynghroydd Owen yn ceisio'i gyflawni ond hefyd wneud yn siwr bod yna rai aelodau oddi ar y Pwyllgor Gwaith yn ogystal.

**PENDERFYNWYD**

- **Bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda Chylch Gorchwyl y Grwp Llywio Adfer fel oedd i'w weld yn Atodiad B i'r adroddiad.**

- **Mai aelodaeth y Grwp Llywio Adfer fydd un aelod o bob Grwp Gwleidyddol ynghyd ag un aelod digyswllt a bydd cyfarfodydd y Grwp yn cael eu cadeirio gan Is-Gadeirydd y Cyngor.**

## 9 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2009/10

Cyflwynwyd gan y Deilydd Portffolio (Cyllid) - Adroddiad ar fonitro gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys am y flwyddyn ariannol 2009/10.

**PENDERFYNWYD derbyn cynnwys yr adroddiad a'i fod hefyd yn cael ei anfon ymlaen i'r Pwyllgor Archwilio yn gyson â phenderfyniad y Cyngor.**

## 10 NEWIDIADAU I WERTHU TIR YN PENUCHELDRE

Cyflwynwyd er gwybodaeth - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) ar benderfyniad gymerwyd ar frys gan y Pwyllgor Gwaith ar 16 Mawrth 2010. Fe wnaed hyn er mwyn sicrhau y gellid gwerthu tir cyn diwedd y flwyddyn ariannol a thrwy hynny ddiogelu Buddsoddiad Grant Tai Cymdeithasol sylweddol o LlCC.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth yn unig.**

*(Roedd y Cynghorydd W. J. Chorlton a W. I. Hughes yn dymuno iddo gael ei gofnodi nad oeddent wedi cymryd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar yr eitem hon).*

## 11 YNYS YNNI

Cyflwynwyd er gwybodaeth - Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Datblygu Economaidd) ar benderfyniad gymerwyd fel mater o frys gan y Pwyllgor Gwaith ar 15 Mehefin 2010. Fe wnaed hyn er mwyn sicrhau arbenigedd allanol ychwanegol ar gyfer darn o waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan ymgynghorwyr a gontractwyd i weithio ar Ynys Ynni.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad i bwrpasau gwybodaeth yn unig.**

## 12 COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU

Adroddwyd gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim - Ei fod yn ddyletswydd ar y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol yng Nghymru adolygu'r trefniadau etholiadol i bob prif Gyngor yng Nghymru ar gyfnodau heb fod yn llai na 10 ac heb fod yn fwy na 15 mlynedd gyda'r pwrpas o ystyried a ddylid gwneud cynigion ai peidio i Lywodraeth Cynulliad Cymru bod angen newid y trefniadau.

Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Comisiwn wneud yr adolygiad cyfnodol hwn ym mis Ionawr 2009 ac fe roddodd y Comisiwn gyflwyniad i Gynghorau Sir a Chynghorau Cymuned yn ystod Mai 2009 gan wahodd cynigion.

Cyhoeddwyd cynigion drafft ar 25 Ionawr 2010 gyda gwahoddiad i wneud sylwadau.  Roedd y Cyngor, ac eraill, wedi ystyried y cynigion drafft ac wedi gwneud sylwadau ynghynt y flwyddyn hon.

Roedd y cynigion terfynol yn awr gyda LICC i'w hystyried ac roedd yna gyfle olaf i wneud sylwadau cyn yr amser cau ar 12 Hydref 2010.  Ar ôl y dyddiad hwn, efallai y bydd LICC yn gwneud gorchymyn i ddod â'r cynigion wnaed iddo gan y Comisiwn fel yr oeddent wedi'u cyflwyno neu gyda newidiadau, i rym.  Fel arall, efallai y byddai'n rhoi rhybudd nad oedd yn bwriadu gweithredu ar y cynigion.

Roedd y cynigion terfynol yn argymell Cyngor Sir o 36 Aelod yn cynrychioli 31 rhanbarth etholiadol.  Dim ond 6 o'r rhanbarthau etholiadol presennol oedd i'w cadw.  Efallai y bydd y rhanbarthau eraill yn cael eu newid.  At hyn, roedd y cynigion terfynol yn cynnig pedair o ranbarthau etholiadol aml-aelod yn ardaloedd Caergybi, Llanfairpwllgwyngyll a Phorthaethwy

Dywedodd Arweinydd y Cyngor iddo dderbyn llythyr gan Gyngor Cymuned Llaneilian yn mynegi pryderon bod yr argymhellion yn rhannu Ward Penysarn yn ddwy ac nad oedd hynny'n benderfyniad democrataidd i'r ardal.

**PENDERFYNWYD**

- **Bod y Cyngor, er yn anfodlon, yn derbyn y cynigion ond ei fod yn gofidio na wnaeth y Comisiwn Ffiniau gymryd i ystyriaeth rai o'r sylwadau wnaed gan y Cyngor.**

- **Y dylid gofyn i'r Comisiwn Ffiniau unwaith yn rhagor ailystyried ei ddefnydd o enw Ward Morawelon fel yr enw arfaethedig i'r Ward newydd yn lle Wardiau presennol Morawelon, Ffordd Llundain, Kingsland a Maes Hyfryd.**

**13 STADAU GWASANAETH LLYSOEDD EI MAWRHYDI**

Adroddwyd gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro - Bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder angen ymgynghori ar y lleoliadau mwyaf strategol i Lysoedd Ynadon a Llysoedd Sirol yng Nghymru a Lloegr.

Roedd y gwaith ymgynghori yn cynnwys cynnig i gau Llys Ynadon Llangefni ac i drosglwyddo gwaith i Gaergybi.  Roedd yna hefyd gynigion oedd yn cael effaith ar Lys Sirol Llangefni gyda'r bwriad y byddai'r Llys Ynadon a'r Llys Sirol yn trosglwyddo i Lysoedd Barn Caergybi.

Ar hyn o bryd, roedd 6 ardal ynadon yn lleol o fewn Ardal Gogledd Cymru y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, a phob un ohonynt gyda Mainc Ynadon oedd yn cynnwys un i Fôn.  Ar hyn o bryd, nid oedd bwriad i symud ymlaen i ystyried yn ffurfiol unrhyw gynnig i uno’r meinciau.

Roedd copi o'r llythyr gafwyd gan HMCS ynghlwm ac roedd yn gwahodd sylwadau ar gynigion. Bydd y cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 15 Medi 2010.

Roedd rhai o'r aelodau'n teimlo y dylid cadw Llys Ynadon Llangefni oherwydd mai Llangefni oedd prif dref Ynys Môn o safbwynt gweinyddiaeth yr Ynys.  Dim ond ychydig iawn o ystyriaeth oedd wedi ei roddi i oblygiadau cost a hefyd i'r anghyfleuster o orfod teithio i Lys Ynadon Caergybi o'r rhannau mwyaf gwledig o'r Ynys.  Roedd yr Ynys yn haeddu cael dau Lys.

Soniwyd hefyd am y bwriad i godi Gorsaf Heddlu newydd yn Llangefni a byddai cadw Llys Llangefni yn cryfhau'r agwedd hon.

Cyfeiriwyd hefyd at ddiffyg llefydd parcio pe bai yna gynnydd yn y defnydd o Lysoedd Ynadon Caergybi.  Yn yr un modd, pe bai Llys Caergybi yn cael ei gau, byddai'r un mor anodd i aelodau'r cyhoedd deithio i Llangefni.

Wedi gwrando ar y drafodaeth, dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro bod nifer fawr o bwyntiau wedi'u gwneud, yn arbennig am ansawdd yr achos a gyflwynwyd yn erbyn cau o gwbl, heb sôn am unrhyw fwriadau penodol i gau a oedd yn cael eu cynnig.  Roedd sylwadau wedi'u gwneud am y diffyg lle i barcio ceir, buddsoddi cyfalaf a chyfleusterau a chyrff y llywodraeth ddim yn cydnabod yn ddigonol y rhwystrau i gymunedau gwledig a'r gost a'r ymdrechion wrth deithio i'r cyfleusterau. Teimlad cyffredinol y Cyngor oedd gwrthwynebu'r cynigion arbennig hyn a chadw pethau fel ag y maent.  Byddai'n barod i geisio cyfleu ysbryd a dyheadau'r drafodaeth a'r pwyntiau oedd wedi'u codi a'u hanfon mewn ymateb i Wasanaethau Llys Ei Mawrhydi.  Nid oedd y Cyngor hwn yn gwrthwynebu iddynt geisio canfod arbedion ond roedd y Cyngor yn gwrthwynebu iddynt gael gwared ar y cyfleusterau hyn yn gyfan gwbl o'r ddau leoliad presennol.

**PENDERFYNWYD y dylid rhoddi awdurdod i'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â'r sylwadau wnaed yn y cyfarfod heddiw.**

### 14 LEIN AMLWCH

Adroddwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff) - Ers 1993, bu'r lein drên ddi-ddefnydd rhwng Gaerwen ac Amlwch yn destun nifer o gynigion i agor y cyfan ohoni neu ran ohoni neu greu rheilffordd treftadaeth neu greu trac beicio.  Fodd bynnag, ni ddaeth yr un ohonynt i rym ac roedd y lein yn parhau yn eiddo Network Rai, tra bod y trac yn gordyfu a'r terfynau a strwythurau fel pontydd a waliau cadw yn parhau i ddadfeilio gydag ond ychydig neu ddim gwaith cynnal a chadw wedi'i wneud.

Fe benderfynodd y Cyngor Sir ar 6 Mawrth 2007 *"mai opsiwn ddewisol y Cyngor hwn i'r lein yw fel llwybr beicio, cerdded a marchogaeth."*

Ers y dyddiad hwnnw, fe godwyd gobeithion y gellid ailagor y lein gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu astudiaeth ymarferoldeb am wasanaeth trên rhwng Bangor a Gaerwen gyda'r posibilrwydd o gyllid preifat allanol am reilffordd treftdaeth rhwng Llangefni ac Amlwch na fyddai'n golygu cael unrhyw gyllid o'r pwrs cyhoeddus.

Daeth y Pwyllgor Gwaith i benderfyniad ar 7 Medi 2009 o blaid gwasanaeth trenau rhwng Gaerwen a Llangefni ac y dylid mynd â'r mater i'r Cyngor Sir i adolygu ei benderfyniad gwreiddiol.

Yn yr hinsawdd ariannol presennol roedd yn ymddangos yn hollol anhebygol y byddai yna unrhyw gyllid allanol ar gael i ailagor y rheilffordd fel llwybr beicio, cerdded neu farchogaeth.

Yng ngoleuni hyn oll, cynigiodd yr Arweinydd y dylai'r Cyngor felly ddileu'r penderfyniad a wnaeth ar 6 Mawrth 2007.  Yn gyntaf, fe ddylai'r Cyngor hwn gefnogi bwriad y Cwmni Rheilffordd i ailagor y gwasanaethau trenau rhwng Llangefni ac Amlwch.  Yn ail, na fydd y Cyngor hwn yn derbyn unrhyw gais am gymorth ariannol o fath yn y byd ac yn drydydd y dylai'r

datblygiad ddechrau mor fuan ac sy'n bosibl a bod gofyn i'r Cwmni Rheilffyrdd gyflwyno amserlen ar gyfer y gwaith er gwybodaeth i'r Cyngor o fewn 6 mis.

Dywedodd y Cynghorydd Ff. M. Hughes mai hi oedd wedi codi y mater yng nghyfarfod y Cyngor ar 2007 a rhoddodd ychydig o gefndir yr holl fater.  Gyda'r holl bwyslais sydd heddiw ar iechyd a ffitrwydd, roedd y penderfyniad wnaed bryd hynny'n ticio'r holl focsys o safbwynt hyn.  Roedd yn dymuno dweud nad oedd ganddi unrhyw wrthwynebiadau o gwbl i reilffyrdd ond roedd yn credu yn yr achos hwn y byddai mwy o bobl yn croesawu trac beicio.  Yr hyn oedd yn ei synnu hi oedd y byddai'r Cyngor yn dod i benderfyniad heddiw heb y fantais o fod wedi cael Cynllun Busnes gan y Cwmni  Rheilffyrdd.  Byddai'n rhaid i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid fynd ar ôl y mater hwn ymlaen llaw.

Roedd y Cynghorydd Bryan Owen yn hollol gefnogol i'r cynigion i sefydlu lein drên. Os oedd y Cyngor hwn o ddifrif ynglyn ag adfywio trefi Llangefni, Amlwch a Llannerch-y-medd, yna roedd yn rhaid i'r cynnig hwn fynd rhagddo.  Nid oedd ganddo unrhyw wrthwynebiadau i drac beicio ger ochr y lein dren fel oedd wedi digwydd gyda Lôn Eifion, Caernarfon.

Roedd y Cynghorydd R. Dylan Jones yn ystyried bod y cynllun yn elfen hanfodol o'r broses o adfywio ardal Amlwch.  Roedd yna bosibilrwydd y gellid cludo nwyddau ac fe allai agosrwydd y lein i safle Wylfa B fod o fantais.

**PENDERFYNWYD**

- **O ystyried datblygiadau diweddar, ac yn amodol ar beidio defnyddio dim o gronfeydd y Cyngor, yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan y Cyngor Sir ar gyfer y defnydd i'r dyfodol o lein Gaerwen i Amlwch yw iddi gael ei hailagor fel lein drên, a phebai'r fenter honno yn methu, bod y Cyngor yn symud yn ôl i gefnogi'r penderfyniad wnaed ganddo ar 6 Mawrth 2007 mai'r opsiwn ddewisol fyddai llwybr beicio, cerdded a marchogaeth.**

- **Bod gofyn i'r Cwmni Rheilffordd gyflwyno Cynllun Busnes i'r Cyngor hwn er gwybodaeth, yn cynnwys amserlen o'r gwaith o fewn 6 mis.**

**15 AWDURDOD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd - Adroddiad llafar gan y Cynghorydd J. V. Owen, un o gynrychiolwyr y Cyngor hwn ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, am gyfarfodydd gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 1 Mai 2010 a 31 Awst 2010.

Adroddwyd - bod cyllid ar gael i ddatblygu'r Orsaf Heddlu newydd ar Stad Ddiwydiannol Llangefni.  Byddai hyn yn hwb i Langefni a byddai hefyd yn tacluso'r rhan honno o'r Stad Ddiwydiannol.  Cyfeiriodd hefyd at waith oedd yn parhau o fewn yr Awdurdod i leihau costau dros y 4 blynedd nesaf, a allai fod cymaint ag 18% o'r gyllideb dros y cyfnod amser hwnnw.  Soniodd hefyd am fid consortiwm i gael rhywbeth yn lle hofrennydd yr heddlu oedd yn chwarae rhan mor bwysig yn yr heddlu.  Roedd disgwyl y byddai'r hofrennydd yn weithredol fis Ionawr nesaf.

Mynegi pryderon wnaeth y Cynghroydd H. Eifion Jones am y toriadau oedd yn cael eu rhagweld i'r gwasanaeth oedd yn cael ei ddarparu gan y Rheolwyr Rhawd Cymunedol a'r PCSOS oedd erbyn hyn wedi dod yn rhan werthfawr o'r gymuned.  Roedd yn gobeithio y gallai'r gwasanaeth hwn gael ei ddiogelu a'i flaenoriaethu.

Roedd y Cynghorydd Peter Robers yn cydnabod pwysigrwydd y gwasanaeth hwnnw a'r ffordd yr oedd wedi ymwneud yn arbennig gyda phobl ifanc iawn. Roedd rhai o'r swyddogion hyn wedi gwneud gwaith ardderchog, ymhell y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol. Fe fyddai ymdrechion diflinno'n cael eu gwneud i gadw'r gwasanaeth.

Mynegodd y Cynghorydd C. Ll. Everett hefyd ei bryder ynglyn â'r toriadau i'r Gwasanaeth. Dywedodd y byddai'n croesawu adroddiad peiriannydd i gyfiawnhau'r honiadau wnaed gan yr Awdurdod Heddlu nad oedd Gorsaf yr Heddlu Caergybi yn strwythurol gryf. Gofynnodd am i'r Cynghorydd Peter Rogers ddilyn y mater hwn i fyny.

Dywedodd y Cynghorydd Rogers y byddai'n gwneud ymholiadau ac yn gadael i'r Cynghorydd Everett wybod beth oedd y sefyllfa.

## 16 AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd - Adroddiad llafar gan y Cynghorydd P. S. Rogers, cynrychiolydd y Cyngor hwn ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, am gyfarfodydd gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 1 Mai 2010 a 31 Awst 2010.

Adroddwyd - Yn yr un modd, roedd yr Awdurdod Tân yn mynd trwy broses o leihau yn y gyllideb. Ar hyn o bryd, roedd yr Awdurdod yn wynebu anawsterau gyda recriwtio staff ar gyfer yr Adain oedd yn cael ei chadw, sef asgwrn cefn yr Awdurdod. Yr oedd hefyd wedi cymryd rhan gydag apwyntio aelod annibynnol ar Bwyllgor yr Awdurdod Tân.

Talodd deyrnged i'r gwaith wnaed gan y cyn aelodau o'r Awdurdod Tân, sef y Cynghroydd W. J. Chorlton a J. A. Roberts o safbwynt ailwampio Gorsafoedd Tân. Byddai'r Orsaf Dân newydd yn Llangefni yn cael ei hailagor gan y Gweinidog ar 14 Hydref 2010.

Gofynnodd y Cynghorydd W. J. Chorlton paham roedd yr Awdurdod Tân wedi prynu cerbyd Subaru i bwrpasau hyfforddi gyda phobl ifanc? Pam oedd yr Awdurdod Tân yn cymryd trosodd rai o ddyletswyddau'r Awdurdod Heddlu?

Addawodd y Cynghorydd J. V. Owen y byddai'n gwneud ymholiadau ynglyn â hyn ac yn adrodd yn ôl i'r Cynghorydd Chorlton.

Llongyfarch yr Awdurdod Tân wnaeth y Cynghorydd Bryan Owen am eu gwaith ardderchog gyda phobl ifanc ac yn arbennig rheini o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

## 17 DIRPRWYO GAN YR ARWEINYDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro - Manylion am achlysuron o ddirprwyo gan yr Arweinydd ers cyfarfod cyffredinol diwethaf y Cyngor hwn.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4:30pm

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**(IS-GADEIRYDD) YN Y GADAIR**